**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)/RE/0463/17

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Ebrill 2017

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Yn ystod ystyriaeth Cyfnod 2 o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, addewais y byddwn yn rhoi manylion pellach i Aelodau'r Cynulliad ar y safonau maeth sydd eisoes yn eu lle mewn ysbytai ac ysgolion, a'r cynlluniau o ran safonau maeth.

Mae cyfarwyddiadau a chanllawiau mewn perthynas â bwyta'n iach i gleifion, staff ac ymwelwyr eisoes ar waith mewn ysbytai. Mae'r rhain yn cynnwys safonau maeth bwyd a hylif gorfodol i gleifion, safonau gorfodol mewn perthynas â gwerthu bwyd a diod iach, a chanllawiau ar gyfer bwyd a diod sy'n cael eu gweini i staff ac i ymwelwyr. Mae'r cydweithio â rhanddeiliaid i wella'r ddarpariaeth o fwyd a diod ymhellach yn dal i fynd rhagddo:

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil cyhoeddi ei adroddiad ar arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion ym mis Mawrth 2017 a bydd yn cymryd y camau priodol;

- Mae adnodd pwrpasol yn cael ei gyflwyno gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Bydd dogfennau safonedig "Unwaith i Gymru" yn cefnogi ac yn gwella ansawdd a diogelwch gofal i gleifion drwy wella'r cofnodion ynghylch asesiadau maeth a chynlluniau gofal. Mae disgwyl i'r gwaith datblygu gymryd tair blynedd, a bydd y cynllun yn cwmpasu cefnogaeth i penderfyniadau clinigol i wella diogelwch cleifion ac adnabod peryglon i gleifion yn gynnar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mewn ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth i wella’r bwyd a’r diod a ddarperir gydol y diwrnod ysgol. Mae Rheoliadau Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013  yn nodi’r mathau o fwydydd a diod y caniateir eu cynnig; ac yn diffinio cynnwys maeth ciniawau ysgol.

Hefyd, mae safonau yn cael eu datblygu ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn a lleoliadau’r blynyddoedd cynnar. Nid oes angen deddfwriaeth i wneud hyn.

Bydd safonau a chanllawiau maeth ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn yn cael eu cynnwys fel rhan o’r trefniadau rheoleiddio ac arolygu newydd sydd i’w cyflwyno o Ebrill 2019 fel rhan o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Bydd meini prawf manylach ar gyfer bwyd yn cael eu datblygu ar gyfer lleoliadau’r blynyddoedd cynnar i danategu Safon 12 o Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012 ar gyfer bwyd a diod mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

I gefnogi cydymffurfiaeth, arolygu a chefnogaeth gan y sector a’r gyfarwyddiaeth, bydd deunyddiau ategol a hyfforddiant yn cael eu datblygu hefyd. Mae’r trafodaethau cynnar gyda’r cyfarwyddiaethau perthnasol yn gadarnhaol, ac mae deietegydd yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu’r safonau.

Mae fy swyddogion nawr yn ystyried yr opsiynau i ategu’r broses o roi’r safonau newydd ar waith a chydymffurfio â hwy.

Rebecca

**Rebecca  Evans AC/AM**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health